Stori Wreiddiol Twinkl


twinkl

# Milfeddyg y Sŵ





Dydd Llun, aeth Jim Jiráff at y milfeddyg. Roedd ganddo lwnc tost.





Rhoddodd y milfeddyg foddion iddo a sgarff i'w lapio am ei wddf hir.



twinkl.com

Cyn hir, dechreuodd y claf deimlo’n llawer gwell, diolch i garedigrwydd y milfeddyg.






Dydd Mawrth, aeth Fflur Fflamingo at y milfeddyg. Roedd hi wedi torri ei hadain.

Rhwymodd y milfeddyg ei hadain a'i gosod mewn sling.



twinkl.com

Cyn hir, dechreuodd y claf deimlo’n llawer gwell, diolch i garedigrwydd y milfeddyg.



Dydd Mercher, aeth Cai Cameleon at y milfeddyg. Roedd ganddo dymheredd uchel.



Rhoddodd y milfeddyg glwt oer am ei ben a digonedd o ddŵr iddo i'w yfed.




twinkl.com


Cyn hir, dechreuodd y claf deimlo'n llawer gwell, diolch i garedigrwydd y milfeddyg.



Dydd Iau, aeth Eilir Eliffant at y milfeddyg. Roedd ganddo annwyd trwm.




Rhoddodd y milfeddyg hances fawr iddo a photel dŵr poeth.




twinkl.com

Cyn hir, dechreuodd y claf deimlo’n llawer gwell, diolch i garedigrwydd y milfeddyg.




twinkl.com

Dydd Gwener, aeth Tesni
Teigr at y milfeddyg.
Roedd ganddi ddraenen
yn ei phawen.




Tynnodd y milfeddyg y ddraenen allan o bawen
Tesni a’i rhwymo.





Cyn hir, dechreuodd y claf deimlo'n llawer gwell, diolch i garedigrwydd y milfeddyg.



O na!

Dydd Sadwrn, teimlai'r milfeddyg yn sâl!




Dydd Sul, rhoddodd eli ar ei smotiau ac aros yn y gwely i orffwys...




...a chyn hir, dechreuodd deimlo'n llawer gwell!




SŴ
MYNEDFA
twinkl